

gorau i sicrhau copi iddynt.

Rhowch wybod hefyd os ydych chi neu rywun arall am dderbyn copi electroneg ohono trwy e-bost bob wythnos. Gallwn drefnu hynny yn ddigon syml. Anfonwch e-bost at

john.cilfynydd@btinternet.com

os ydych eisiau'r gwasanaeth hwnnw.

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sy'n dosbarthu Gronyn i'ch cyd-aelodau a'ch cyfeillion a'ch cymdogion bob wythnos.

Cwrs Grawys

Gofynnwyd i ni dynnu sylw at Gwrs Grawys 2018, '40 o Straeon Gobaith', a ddechreuodd yng nghapel Shiloh, Tregarth nos Iau diwethaf, ac a fydd yn parhau am 7.00 o'r gloch am y 5 nos Iau nesaf, ar y themau canlynol:

2. Sefydlu Awdurdod (Marc 6:7-13)
3. Datguddio'r Gwir (Marc 8:27-29)
4. Amser Penderfynu (Marc 10:42-45)
5. Gweithredoedd yn llefaru (Marc 14:22-25)
6. Trechu Angau (Marc 14:53-65)

Bydd y cwrs yng ngofal y Parchg Richard Gillion, ac y mae croeso i unrhyw un fynd yno.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 25

5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

Mawrth 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Chwefror 25: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan Mr Arwel Williams.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Chwefror 25: Cynhelir yr Oedfa Deulu fisol dan arweiniad y Gweinidog am 10.30 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Chwefror 19: Cynhelir y Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 23: Cynhelir Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 25: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Ac yna gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Chwefror 22: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 25: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 25: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 18

10.00 a.m. - Mr Huw Tegid Roberts

11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL

5.00 p.m. - Dim oedfa nos

Chwefror 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 4

10.00 a.m. - Mr Corey Hampton

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Dim oedfa nos

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las



Trafferthion Oxfam

Mae Mark Goldring, Prif Weithredwr Oxfam wedi cyhoeddi llythyr agored yn ymddiheuro am ymddygiad rhai o weithwyr yr elusen yn Haiti yn 2011 ac yn Chad o 2006 ymlaen. Gwnaeth hyn ar ôl iddi ddod yn amlwg fod rhai o gyn-weithwyr Oxfam yn euog o gam-ymddwyn rhywiol ac o gam-drin pobl yr oeddent yn y gwledydd hynny i'w helpu yn enw'r elusen. Mae'n amlwg mai dechrau trafferthion Oxfam yw hyn o hyd, ac amser yn unig a ddengys pa effaith a gaiff yr helynt ar ei waith yn y pen draw. Mor drist fu gweld camymddygiad rhai unigolion yn dod ag enw drwg i'r mudiad cyfan yng ngolwg llawer o bobl.

Nid cyfiawnhau'r drygioni y clywsom amdano a wneir wrth ddweud nad wyf yn synnu fod pobl sy'n gwasanaethu elusennau dyngarol yn medru gwneud y pethau gwrthun a adroddwyd yn y Wasg yn ddiweddar. Gwaetha'r modd, nid yw gweithwyr elusennol wrth natur yn wahanol i neb arall, ac oherwydd hynny maent mor dueddol â neb o fethu â chyrraedd y safonau moesol y mae cymdeithas yn ei disgwyl, heb sôn am safon berffaith cyfraith lân Duw. Y mae eu pechod hwy, fel pechod pawb arall, yn sicr o gael ei amlygu trwy'r hyn a wnânt. Yr hyn sy'n wirioneddol drist a siomedig yn yr achos arbennig hwn yw bod pobl a edmygid am eu gwasanaeth hunan aberthol er mwyn lleddfu peth ar ddiodefaint eraill wedi bradychu'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt gan yr elusen a'i chefnogwyr a'r dioddefwyr eu hunain.

Nid yw natur bechadurus neb yn esgus am y pechodau y mae'n eu cyflawni. Mae pob creadur gwâr yn gwybod ei fod mewn brwydr barhaus yn erbyn y drwg sydd ynddo ac yn ei wynebu. Ac fe ddylai pob mudiad a sefydliad wneud pob ymdrech bosibl i sicrhau'r safonau uchaf posibl gan eu gweithwyr a'u cefnogwyr. Ond ar brydiau, mewn byd a betws, mae pobl yn syrthio'n fyr o'r safonau disgwylidig. Afraid dweud fod ymddygiad Roland Van Hauwermeiren ac eraill wedi bod yn siom aruthrol i gefnogwyr Oxfam. Mae pobl wedi eu ffeiddio o glywed yr hyn a wnaeth y dyn a fu'n arwain gwaith Oxfam yn Haiti.

Siomedig hefyd fu peth o'r ymateb i'r sgandal, wrth i rai pobl alw arnom hyd yn oed i beidio â chefnogi elusennau dyngarol o bob lliw a llun oherwydd yr hyn a wnaed gan Van Hauwermeiren a'i debyg. Wrth gwrs bod angen i'r elusennau wneud popeth a fedrant i ddileu'r drwg ac ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth pobl. Ond yn ein byd amherffaith ni, pobl amherffaith sy'n cefnogi mudiadau amherffaith i alluogi pobl amherffaith i gynorthwyo eraill yn eu henw. Heb os, felly y byddem yn disgwyl i bob elusen Gristnogol ei gweld hi, er nad ydynt am eiliad yn cyfiawnhau nac esgusodi'r un pechod na bai.

Nid yw'r troseddau na'r bobl fu'n euog ohonynt yn rheswm dros ymryddhau o'r cyfrifoldeb a'r fraint o helpu eraill yn eu dioddefaint a'u cynni.



Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Nid oes Ysgol Sul heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno.

Nid oes Ysgol Sul yn Nhalybont heddiw. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan Mr T. Alun Williams, Caernarfon.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Balm o Salm



'Pwy a saif drosaf yn erbyn y drygionus, a sefyll o'm plaid yn

erbyn gwneuthurwyr drygioni? Oni bai i'r ARGLWYDD fy nghynorthwyo byddwn yn fuan wedi mynd i dir distawrwydd. Pan oeddwn yn meddwl bod fy nhroed yn llithro, yr oedd dy ffyddlondeb di, O ARGLWYDD, yn fy nghynnal. Er bod pryderon fy nghalon yn niferus, y mae dy gysuron di'n fy llawenhau (Salm 94:16-19).

Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Dydd Gwener, Mawrth 6 yw'r dyddiad a bendowyd ar gyfer Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd eleni.

Mae hwn yn fudiad Cristnogol byd-eang sy'n cael ei arwain gan ferched er mwyn rhoi cyfle i eglwysi weddio a gweithio dros heddwch a chyfiawnder yn y byd.

Gwragedd o eglwysi yn Suriname sydd wedi paratoi'r gwasanaeth eleni. Mae gwlad Suriname ar arfordir gogleddol De America. I'r gorllewin ohoni mae Guyana, i'r dwyrain Guyane Ffrengig, ac i'r de Brasil.

Thema'r gwasanaeth y tro hwn fydd

'Mae Cread Duw yn Dda Iawn i Gyd'. Bydd y gwasanaeth yn annog pobl i weld pa effaith a gaiff yr hyn a wnawn ni ar y blaned, sy'n un o roddion mwyaf Duw i ni.

Mae'r argyfwng amgylcheddol hefyd yn argyfwng cyfiawnder byd-eang. Mae cyfiawnder Duw erioed wedi golygu rhoi llawn o gariad aberthol. Fel Cristnogion, ni allwn fod yn dawel. Yr ydym yn credu, ac mae gennym obaith fod gan bobl y gallu a'r modd ac yn fwyfwy yr ewyllys i ganolbwyntio ar gyfiawnder, heddwch a lles y blaned.

Trwy ailgylchu rhown ddefnydd newydd i hen nwyddau, gan leihau'r defnydd o adnoddau sy'n gwneud drwg i'r blaned. Gobaith y chwiorydd o Suriname yw y bydd amrywiol weithgareddau'r Dydd Gweddi yn helpu Cristnogion i ddysgu am gyfiawnder hinsawdd ac i ymgyrchu drosto.



Bydd aelodau'r eglwysi yn Neiniolen yn cynnal Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn festri Ebeneser am 6.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 2.

Cwrs Ieuencid

Gobeithio bod y criw o bobl ifanc o CIC Capel Coch sydd wedi mynd i'r Cwrs Ieuencid yng Ngholeg y Bala yn cael amser da. Maent yn dod adref ar ôl cinio heddiw. Diolch i Catrin Hampton am drefnu a mynd yno gyda'r bobl ifanc.

Rwy'n deall fod Andrew Settatee wedi mynd yno hefyd, ac mae'n siwr y bydd y criw yn falch o'i weld yntau unwaith eto.

Cefnywaun

Roedd yn fwriad ar ôl yr oedfa yn Neiniolen heno i roi gwybod i aelodau Cefnywaun am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch adeiladau Ebeneser. Mae llai nag a obeithiwyd i'w ddweud ond fe fydd cyfle er hynny i ddweud rhywfaint.

Ar y We Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am gronyn.org

Ar dudalen 'Gartref' y wefan mae neges ddiweddaraf *Gronyn* i'w weld yn glir. Caiff ei osod yno cyn diwedd y dydd bob Sul ar ôl i'r copiau papur gael eu rhannu yn yr oedfaon. Mae'n galondid gweld fod amryw o bobl o'r tu allan i gylch yr Ofalaeth yn edrych arno bob wythnos.

Bwriedir arbrofi am bell Sul trwy osod y neges ar y wefan yn hwyr nos Sadwrn neu ben bore Sul er mwyn gweld a fydd hynny yn denu rhagor i'w ddarllen. Gan ein bod yn defnyddio tudalennau *Facebook* yr eglwysi i dynnu sylw at y neges ar y wefan, bydd yn dda cael gwybod a fydd hynny yn fwy effeithiol yn gynharach yn y dydd nag yn hwyr ar nos Sul.

Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am yr holl roddion a gafwyd ers dechrau'r flwyddyn at gronfa *Gronyn*. Bydd y rhoddion yn help i dalu am gost cynhyrchu'r daflen bob Sul.

Os gwyddoch am rywun a fyddai'n falch o dderbyn copi ohono yn wythnosol rhwch wybod i'r Gweinidog neu i un o swyddogion yr eglwysi, ac mi wnawn ein